# Llanrwst

**Pellter:** 3.3km / 2 filltir
**Anhawster:** hawdd
**Amser cerdded:** 1.5 awr

Sawl camfa.

Caffis a thoiledau yng nghanol y dref.


Mae'r llwybr hwn yn dilyn llwybrau drwy'r dref ac yna ar hyd afon Conwy. Mae cae chwarae ger diwedd y llwybr.

1. Wrth adael gorsaf Llanrwst, trowch i'r chwith gan fynd i ganol y dref. Pan gyrhaeddwch dŵr y cloc, ewch i'r dde a dilyn y ffordd wrth iddi wyro tua'r dde wrth Snowdonia Antiques.

2. Dilynwch y ffordd heibio'r llyfrgell nes i chi weld ffordd yr Orsaf yn troi i'r chwith. Dilynwch y ffordd at Orsaf Gogledd Llanrwst. Ychydig cyn yr orsaf, trowch i'r chwith gan fynd heibio stad ddiwydiannol fechan a chroesi afon Conwy dros Bont Gower.

3. Yn syth ar ôl y bont, cymerwch y gamfa ar y chwith sy'n eich arwain i mewn i'r cae. Dilynwch y llwybr clir nes bydd camfa arall yn mynd â chi i'r chwith. Yna, bydd nifer o gamfeydd yn eich arwain dros gaeau at drac. Cofiwch fod yr ardal hon yn cael llifogydd felly gall glaw trwm olygu ei bod yn wlyb iawn.

4. Trowch i'r chwith ar y trac, a'i ddilyn nes i chi gwrdd â'r ffordd. Ar ôl croesi, fe ddewch at gae chwarae bychan neu er mwyn parhau â'r llwybr trowch i'r chwith ar y ffordd a byddwch yn ofalus wrth groesi'r bont. Ar ôl croesi'r bont, trowch i'r chwith a dilyn y ffordd yn ôl i ganol y dref ac at dŵr y cloc. Bydd troad i'r dde yn y fan hon yn mynd â chi'n ôl i'r orsaf.




Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau

Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023